# PAM DEWIS GCSE
# HANES?

Rydym i gyd yn byw mewn byd rhyng-gysylltiedig sy'n newid yn gyson. Mae deall digwyddiadau hanesyddol yn hanfodol i wneud synnwyr o ddigwyddiadau cyfredol. Mae TGAU Hanes yn ein cynorthwyo i gyflawni hyn drwy archwilio digwyddiadau a ffigurau arwyddocaol o'r gorffennol a'u dylanwad ar ein presennol.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae'r cwrs TGAU Hanes yn eich caniatáu i archwilio detholiad eang ac amrywiol o destunau o wahanol gyfnodau a chymdeithasau hanesyddol. Gall myfyrwyr archwilio, dadansoddi ac asesu ffigurau a digwyddiadau hanesyddol o'r amrywiaeth eang o ddewisiadau sydd ar gael. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys:

UNED 1: Astudiaeth fanwl o hanes Cymru

Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg i chi ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

UNED 2: Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd

Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

UNED 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd

Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.

UNED 4: Cymdeithas sy'n newid

Byddwch yn astudio digwyddiadau â thema benodol o fewn cyfnod parhaus o tua 75–100 mlynedd o hanes.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

UNED 1: Arholiad ysgrifenedig: 1 awr I'W GADARNHAU

30% o'r cymhwyster

UNED 2: Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan CBAC

20% o'r cymhwyster

UNED 3: Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

30% o'r cymhwyster

UNED 4: Asesiad di-arholiad: 4 awr

Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

20% o'r cymhwyster

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

TGAU Hanes yw'r pwnc perffaith i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth neu astudiaeth bellach, gan gynnwys:

- Dod i gasgliadau a llunio barn
- Datrys problemau
- Sgiliau ysgrifennu
- Sgiliau ymchwilio
- Sgiliau astudio annibynnol
- Sgiliau dadansoddol a gwerthusol
- Gwneud cysylltiadau

## GYRFAOEDD MEWN 'HANES'

Mae cyflogwyr bob amser yn chwilio am bobl ifanc sy'n gallu meddwl yn feirniadol ac yn ddadansoddol, ill dau yn nodweddion allweddol haneswyr. Gall astudio TGAU Hanes eich helpu i gymryd y camau cyntaf tuag at amrywiaeth o lwybrau gyrfa, gan gynnwys y gyfraith, newyddiaduraeth, marchnata, adnoddau dynol, a rheoli.

Mae TGAU Hanes hefyd yn llwyfan ar gyfer astudio pellach ar lefel Safon Uwch ac israddedig, naill ai mewn hanes ei hun neu mewn amrywiaeth eang o ddisgyblaethau eraill.

Gall weithredu fel carreg sylfaen ar gyfer addysg o bob math ac mae'n helpu i ddatblygu sgiliau academaidd sy'n hanfodol mewn amrywiaeth o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i amsugno llawer iawn o wybodaeth, didoli cynnwys, dadansoddi ffynonellau a dehongliadau, llunio dadleuon a dod i gasgliadau cytbwys.

**DYSGWCH FWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!**

